



DARLLENWCH
Genesis 18: 1-15



ADNOD
ALLWEDDOL
Genesis 18: 14

Gofynnwch i rywun
eich helpu i ddod o
hyd i'r adnod.

Stori 4 Abraham a'r bobl ddiarth

Ydych chi'n hoffi pan fydd ffrindiau neu berthnasau'n dod i'ch tŷ chi? Un diwrnod poeth, pan oedd Abraham yn eistedd wrth ddrws ei babell, gwelodd dri dyn diarth yn dod a rhedodd i gwrdd â nhw. Cynigiodd ddod â dŵr i olchi eu traed a bara iddynt ei fwyta.



C Rhowch ✓ wrth y nifer o ddynion a gafodd groeso gan Abraham.

1 2 3

Rhedodd Abraham nôl i'w babell a gofyn i Sara bobi bara. Gofynnodd i was ladd llo ifanc i gael cig. Aeth â'r cig a'r bara, a llaeth a menyn i'r dynion, a safodd gerllaw, o dan y goeden tra oedden nhw'n bwyta.

C Ysgrifennwch y pedwar peth a gafodd eu paratoi ar gyfer yr ymwelwyr.

B _____, m _____, c _____ a ll _____.

Roedd y bobl ddiarth yn rhai arbennig iawn. Duw oedd wedi'u hanfon. Roedd gan un ohonynt newyddion da iawn i Abraham.

C Lliwiwch bob sgwâr sydd â smotyn ynddo i gael gweld beth yr oedd Abraham a Sara yn mynd i'w gael.

3

	•				•				•				•	•	•	
	•	•		•	•			•		•			•		•	
	•		•		•		•				•		•	•		
	•				•		•	•	•	•		•			•	
	•				•		•				•		•	•	•	

Gan fod Abraham a Sara'n hen iawn, chweddodd Sara wrth feddwl am gael babi.

Ar ôl amser, cafodd y bachgen bach ei eni. Isaac oedd ei enw. Nawr roedd gan Sara reswm gwahanol dros chwerthin. Roedd hi'n chwerthin mewn llawenydd! Roedd hi wedi dysgu nad oes dim yn amhosibl gyda Duw a bod Duw bob amser yn cadw'i addewidion.

2

C Beth y mae Duw'n eu cadw bob amser?

E ___ a _____ .

Gallwn ninnau ddiolch i Dduw ei fod wedi cadw'i addewid am anfon Iesu Grist i farw droson ni. Ydych chi wedi diolch iddo?

Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ai peidio.

Roedd Sara'n ifanc pan gafodd ei mab ei eni.

Galwodd hi ei mab yn Isaac.

Mae popeth yn bosibl gyda Duw.

6

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. PO. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth.
Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawm o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120